# Seibr-fwlio

**Gwaith pâr / grŵp – Creu Cyflwyniad**

1. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi ei darllen am seibr-fwlio, ewch ati i greu cyflwyniad byr gan ddefnyddio sleidiau *PowerPoint*. Y gynulleidfa ar gyfer eich cyflwyniad fydd disgyblion ysgol yr un oed â chi neu blant iau. Nod y cyflwyniad yw addysgu a dangos arweiniad. Rhaid i'r cyflwyniad fod yn gofiadwy ac yn hawdd i'w ddilyn.

Dyma rai pwyntiau i'w hystyried wrth baratoi:

**Faint o wybodaeth a pha wybodaeth? Dewiswch yn ofalus pa wybodaeth sy'n mynd ar y sleidiau a pha bwyntiau byddwch chi'n eu cyflwyno ar lafar.**

**Meddyliwch am benawdau neu frawddegau bachog i'w defnyddio. Bydd hyn yn helpu i wneud y cyflwyniad yn gofiadwy.**

**Gwyliwch nad yw'r cyflwyniad yn mynd yn rhy hir a bod gormod o wybodaeth. Mae'n rhaid dewis a dethol y pwyntiau pwysig yn ofalus.**

**Defnyddiwch luniau a thechnegau graffeg *PowerPoint* i wneud eich cyflwyniad yn ddeniadol.**

**Ystyriwch ym mha drefn rydych chi'n gosod y sleidiau. Mae angen dechrau da i ddenu sylw a diweddglo positif fydd yn aros yn y cof.**

Gweiddi

**Gwaith unigol – Ymson**

2. Dyma gyfle i chi wneud gwaith unigol. Ysgrifennwch ymson gan rywun sy'n cael ei fwlio ar-lein. Defnyddiwch y wybodaeth rydych chi wedi ei darllen er mwyn creu cymeriad a sefyllfa ac yna ceisiwch feddwl beth yw llif meddyliau'r cymeriad.

Dyma rai pwyntiau i'ch helpu:

**Pwrpas ymson yw ysgrifennu am deimladau gan ymateb i'r hyn sy'n digwydd o gwmpas y cymeriad.**

**Mae ymson yn cael ei ysgrifennu yn y person cyntaf ac yn digwydd yn y presennol.**

**Cofiwch mai llais y cymeriad sydd i'w glywed, felly defnyddiwch iaith sgyrsiol, lafar.**

**Cofiwch greu awyrgylch. Disgrifiwch ble rydych chi, beth sydd o'ch cwmpas chi, defnyddiwch eich synhwyrau.**

**Er bod ymson yn digwydd yn y presennol mae'n bosib cyfeirio at y gorffennol a'r dyfodol – sôn am brofiad, neu ddymuniad, er enghraifft.**

**Rydyn ni'n cwestiynu'n hunain a phobl eraill yn ein meddyliau drwy'r amser, felly cofiwch ddefnyddio cwestiynau rhethregol.**

**Mae'r meddwl yn llifo o un peth i beth arall. Cofiwch hyn wrth feddwl am strwythur.**